# Atodiad 3

## Cwestiynau'r sesiynau un i un


| | |
|---|---|
| Atodiad 3.1 | Rheoli Pridd |
| Atodiad 3.2 | Rheoli Cynefinoedd |
| Atodiad 3.3 | Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm |
| Atodiad 3.4 | Iechyd a lles anifeiliaid a rheoli da byw |




# Atodiad 3.1
# Rheoli Pridd

## Cwestiynau'r sesiynau un i un
## Myfyrio

1. Pa mor bwysig yw rheoli pridd i'ch system ffermio? A ydych wedi gwneud unrhyw rai o'r canlynol ar y tir yr ydych yn ei reoli yn y 5 mlynedd diwethaf? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
   a. Profion pridd safonol (pH, P, K)
   b. Dadansoddiad manwl o'r pridd (elfennau hybrin neu debyg)
   c. Ychwanegu calch
   ch. Cywiro cywasgiad pridd (e.e. awyru / chwalu cletir /codi tyweirch, draeniau tyrchod ac ati)
   d. Gosod neu atgyweirio draeniau yn y caeau
   dd. Cau draeniau
   e. Defnyddio cyflyrydd pridd (e.e. biosolidau)
   f. Newid arferion tyfu cnydau neu bori
   ff. Ymgymryd ag unrhyw ddulliau rheoli pridd eraill - rhowch fanylion

2. Gan feddwl am eich system ffermio eich hun, a fyddech cystal â rhannu'r hyn a fyddai'n llywio eich penderfyniadau wrth:
   - Ddefnyddio gwrtaith
   - Aredig neu ail-hau tir
   - Tyfu cnydau

3. Pa gymorth allanol ydych chi'n ei ddefnyddio i helpu i reoli'r pridd ar eich fferm? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
   - Agronomegydd
   - Cynllun Rheoli Maetholion
   - Profi'r Pridd
   - Arall, nodwch

4. Fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru am edrych ar ffyrdd o wella rheolaeth y pridd ar ffermydd Cymru. Pa gamau fyddech chi'n eu hawgrymu y gellid eu cyflwyno i wella rheolaeth y pridd ar ffermydd Cymru?



CYDLUNIO AR GYFER CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

5. I bwy fyddech chi'n gofyn neu ym mhle fyddech chi'n chwilio am wybodaeth sy'n helpu i lywio arferion rheoli pridd ar eich fferm? (Gallai hyn fod yn wybodaeth i gefnogi eich sgiliau eich hun, neu gyngor/cymorth mwy arbenigol, dewiswch bob un perthnasol)
   - Ffrindiau/Teulu
   - Mentor
   - Ymgynghorydd
   - Agronomegydd
   - Cyflenwyr/cynrychiolwyr gwerthu
   - Llyfrau
   - Cyhoeddiadau ffermio
   - Fideos ac erthyglau ar-lein
   - Podlediadau
   - Mynychu digwyddiadau ar y fferm
   - Grwpiau trafod
   - Arall (rhowch fanylion)

GWERSI A DDYSGWYD

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb clywed eich adborth ar gydrannau pridd cynlluniau presennol a blaenorol. Hyd yn oed os nad ydych wedi bod yn rhan o gynlluniau o'r fath, byddem yn croesawu eich syniadau a'ch canfyddiad o'r cynlluniau hynny.

6. A ydych wedi bod, neu a ydych yn rhan o'r cynlluniau canlynol ar hyn o bryd (dewiswch bob un perthnasol):
   - Glastir Sylfaenol
   - Glastir Uwch
   - Ardystiad Organig
   - Arall - rhowch fanylion

7. Beth sydd wedi gweithio'n dda neu sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd yn y cynlluniau hyn?

8. Beth fu'r heriau a wynebwyd yn y cynlluniau hyn?

9. A wnaethoch chi chwilio am gymorth ychwanegol, neu dalu am gymorth ychwanegol neu ddysgu sgiliau newydd i weithredu gofynion rheolaeth y cynlluniau hyn?
   Do/Naddo (Rhowch fanylion pellach os oes angen)

10. Pe byddech yn ystyried cynlluniau o'r fath eto, pa newidiadau i ofynion y cynllun a fyddai wedi gwella'r broses o reoli pridd ar eich fferm? (cyfyngwch eich ateb i un frawddeg os gwelwch yn dda)

11. Wrth feddwl pam yr oedd camau gweithredu neu ofynion rheolaeth penodol yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau hyn;
    a) A oeddech yn deall pam yr oedd arferion rheoli penodol wedi'u cynnwys o fewn y cynlluniau hyn?
    b) Sut y cafodd y rheswm dros yr arferion rheoli ei gyfleu?
    c) Beth fyddai wedi bod yn fwy defnyddiol?

12. A wnaethoch chi weithio gyda chymdogion i gyflawni nodau cyffredin mewn cynlluniau sydd eisoes yn bodoli?
    a) Do
    b) Naddo
        Os wnaethoch chi, a oedd hynny at sail ffurfiol neu anffurfiol (rhowch fanylion os gwelwch yn dda):
        Ffurfiol (e.e. mentrau cydweithredol, partneriaeth pori, cynllun rheoli ac ati)
        Anffurfiol (e.e. rhannu cyfleusterau/offer, casglu ar y cyd ac ati)

13. Disgrifiwch hyd at 3 nodwedd o'r hyn sy'n gwneud cynllun rheoli maetholion defnyddiol (Mae cynllun rheoli maetholion yn seiliedig ar brofi'r pridd a sicrhau bod maetholion yn cael eu targedu at anghenion y cnydau. Gall enghreifftiau gynnwys profi pridd, defnyddio gwrtaith wedi'i dargedu, cyfle i leihau costau mewnbwn ac ati):

14. Disgrifiwch hyd at 3 nodwedd o'r hyn sy'n creu cynllun defnyddiol ar gyfer rheoli tail (bydd cynllun rheoli tail yn nodi pob darn o dir ar y fferm sy'n addas ar gyfer defnyddio tail a bydd yn ystyried amseriad gwasgaru, y perygl o drwytholchi a maetholion y pridd. Gall atebion enghreifftiol gynnwys llai o risg o lygredd, ymwybyddiaeth P a K yn y pridd ac ati):

15. Disgrifiwch hyd at 3 enghraifft o gamau ymarferol y gellid eu cymryd i wella strwythur y pridd ar eich fferm (dulliau mecanyddol cyflym - aredig, aredig isbridd ayb, cemegol, gwrtaith, calch, ychwanegu deunydd organig, rheoli plâu – tyrchod daear:

16. Yn seiliedig ar y wybodaeth a rannwyd gyda chi fel rhan o'r holiadur hwn, sut all Llywodraeth Cymru gyfleu dull y cynllun o ymdrin ag arferion rheoli pridd yn effeithiol?

17. Yn olaf, a oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu a fyddai'n helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun SFS?





# Atodiad 3.2
# Rheoli Cynefinoedd

## Cwestiynau'r sesiynau un i un
## Trosolwg

1. A fyddech chi'n cefnogi'r cynllun sy'n cynnwys rheoli cynefinoedd presennol ar fferm fel elfen orfodol?
    a. Byddem
    b. Na fyddem
    c. Ansicr (Rhowch ragor o fanylion os gwelwch yn dda)

2. Cynigir y byddai'r cynllun yn gweithredu ar sail ranbarthol yn unol â Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru. Ydych chi'n gyfarwydd â datganiad CNC ar gyfer eich ardal chi?
    a. Ydw
    b. Nac ydw
    c. Ansicr

Adran 1 - Rheoli eich tir cynhyrchiol

3. Pa mor dda ydych chi'n meddwl eich bod chi'n rheoli'ch tir cynhyrchiol?

| Dim llawer o reolaeth | | | | | | | | | Rheolaeth dda |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |

4. How much consideration do you give wildlife when managing your productive land?

| Dim ystyriaeth | | | | | | | | | Prif ystyriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |

5. Faint mae eich tir cynhyrchiol yn effeithio ar yr amgylchedd ehangach?

6. Pa fesurau ydych chi'n eu cymryd i annog bywyd gwyllt ar eich tir cynhyrchiol?

7. Beth ydych chi'n meddwl byddai'r gymdeithas yn hoffi i chi ei gyflawni o'ch tir cynhyrchiol y tu hwnt i fwyd?

    7a. Ydych chi'n meddwl bod modd ffermio'n gynaliadwy a gofalu am yr amgylchedd?
    a. Ydw
    b. Nac ydw
    c. Ansicr

7b. I ba raddau ydych chi'n meddwl bod hyn yn gyraeddadwy?

| Anghyraeddadwy | | | | | | | | | Yn gwbl gyraeddadwy |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |

8. Ydych chi'n meddwl bod gennych chi'r niferoedd a'r cyfuniad gorau o dda byw i reoli eich tir yn gynaliadwy?
    a. Ydw
    b. Nac ydw
    c. Ansicr

9. Pa fath o ymyriadau fyddai arnoch eu hangen er mwyn gallu addasu eich arferion ffermio a sicrhau mwy o ganlyniadau amgylcheddol gan barhau i gynhyrchu bwyd? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    a. Cymhelliant ariannol
    b. Cyfrifo budd / incwm a ildiwyd
    c. Gwell dealltwriaeth o effaith a chyfleoedd amgylcheddol
    ch. Datblygu sgiliau newydd i reoli cynefinoedd
    d. Gweithgaredd fferm arddangos
    dd. Cyfathrebu gwell cyfleoedd amgylcheddol rhanbarthol
    e. Arall (nodwch)

## Adran 2 - Cynefin

10. Yn eich barn chi, pa mor dda ydych chi am reoli eich cynefinoedd?

| Dim llawer o reolaeth | | | | | | | | | Rheolaeth dda |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |

11. Pa mor dda ydych chi'n deall eich cynefinoedd? A allwch chi:

| | |
|---|---|
| Wahaniaethu rhwng tir wedi'i wella a thir heb ei wella | Gallaf/na allaf |
| Adnabod gwahanol fathau o gynefinoedd | Gallaf/na allaf |
| Adnabod rhywogaethau/nodweddion allweddol | Gallaf/na allaf |
| Asesu cyflwr yn seiliedig ar nifer y rhywogaethau | Gallaf/na allaf |

| Ychydig iawn o werth | | | | | | | | | Ased gwerthfawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |

12. Pa mor werthfawr yw eich cynefin? I chi, eich ardal ac i Gymru?

13. Pa mor dda ydych chi'n meddwl y gallech chi reoli eich cynefin i gyflawni nodau'r cynllun?





14. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig seilio'r cynllun ar dalu am gyflawni canlyniadau penodol. Byddai gwasanaeth cynghori ac arweiniad ar gael.
    Sut ydych chi'n teimlo am y dull hwn?
    Beth yw'r buddion yn eich barn chi?
    Beth yw'r anawsterau yn eich barn chi?

15. A oes gennych chi, neu a fyddech chi'n gallu dysgu'r sgiliau cywir i gyflawni canlyniadau ecolegol ar dir rydych chi'n ei reoli?

16. A ydych chi'n cadw gwartheg, neu a fyddech chi'n gallu sicrhau bod gwartheg ar gael i reoli'r cynefin?

17. Byddai gwytnwch ecosystemau o fewn y cynllun ffermio cynaliadwy yn talu ffermwyr am gamau penodol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Sut y dylid rheoli sut y caiff y camau gweithredu hyn eu cyflawni?

18. Yn olaf, a oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu a fyddai'n helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun SFS?

# Atodiad 3.3
# Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm

## Cwestiynau'r sesiynau un i un

Uchelgais a nodau

| | | |
|---|---|---|
| 1 | A ydych yn gosod nodau/targedau ar gyfer eich busnes eich hun? | Ydw/Nac ydw |
| 2 | Pa mor werthfawr ydych chi'n meddwl yw gosod nodau/ targedau i fusnes ffermio? | (a) gwerthfawr iawn<br>(b) gwerthfawr<br>(c) yn weddol werthfawr<br>(d) ddim yn werthfawr iawn<br>(e) ddim yn werthfawr o gwbl |
| 3 | Allwch chi roi enghraifft o rai o'r targedau neu'r nodau sydd gennych ar gyfer eich busnes? Nid oes rhaid i chi rannu unrhyw wybodaeth bersonol neu ariannol, dim ond enghraifft. | |
| 4 | A fyddai'n ddefnyddiol i chi rannu nodau neu dargedau busnes gydag unigolyn y tu allan i'r busnes fferm fel ffordd o rannu eich gweledigaeth cyn unrhyw fuddsoddiad arfaethedig? | |
| 5 | Pa fath o nodau neu dargedau y dylid eu hystyried fel rhan o'r cynllun SFS? (O gofio y byddai angen i'r rhain fod yn berthnasol i bob math o fferm a sefyllfaoedd personol/ariannol) | |
| 6 | A ddylai nodau/targedau a bennwyd fel rhan o'r cynllun SFS gynnwys elfen o uchelgais economaidd? (A wnewch chi ymhelaethu ar yr hyn sy'n rhesymol ai peidio) | |
| 7 | Sut all y cynllun ystyried uchelgeisiau personol (h.y. y pethau rydych am eu cyflawni drosoch eich hun mewn bywyd) a allai effeithio ar botensial economaidd busnes y fferm? (e.e. olyniaeth, ymddeoliad, buddiannau eraill ac ati) | |
| 8 | A oes angen i bob nod/targed fod yn fesuradwy, neu a oes modd iddynt fod yn ddyheadau? | |
| 9 | A ddylai nodau/targedau a nodwyd o fewn y SFS fod am gyfnod penodol amser? (e.e. blwyddyn, 5 mlynedd 10 mlynedd) | |
| 10 | Pa mor aml y dylai'r cynllun SFS adolygu eich nodau? | |
| 11 | Beth yw eich diffiniad o fusnes fferm llwyddiannus? | |





SWOT Analysis

| | | |
|---|---|---|
| 12 | Ydych chi wedi cynnal dadansoddiad SWOT o'ch busnes fferm? | Ydw/Nac ydw |
| 13 | Beth, yn eich barn chi, yw'r prif gryfder, gwendid, cyfle a bygythiad i'ch busnes ffermio? | |
| Cryfderau a Gwendidau | | |
| 14 | Mae'r SFS yn dymuno cefnogi ffermwyr drwy ganolbwyntio ar gryfderau a gwendidau sy'n ffactorau mewnol (o fewn rheolaeth y ffermwr) sy'n gallu effeithio ar berfformiad fferm.<br>Beth yw'r prif gryfder a'r gwendidau y gall busnesau fferm unigol fynd i'r afael â hwy? | |
| 15 | Yn seiliedig ar y cwestiwn blaenorol, pa wybodaeth sydd gan fusnesau fferm a all ddarparu tystiolaeth a ffeithiau i seilio'ch asesiad o'r cryfderau a'r gwendidau? E.e. benthyciadau/cronfeydd arian parod cyfredol, costau cynhyrchu, argaeledd Llafur ac ati. | |
| 16 | Er mwyn sicrhau dull safonol o werthuso cryfderau a gwendidau pob fferm, pa gategorïau penodol y dylid eu defnyddio (e.e. perfformiad (cnydau/da byw), cyllid, cyfleuster, tir ayb) | |
| Cyfleoedd a Bygythiadau | | |
| 17 | Mae cyfleoedd a bygythiadau yn ffactorau allanol sy'n effeithio ar nodau ac amcanion ffermwr ac sydd fel arfer yn annghyffyrddadwy. Gall y rhain gynnwys amrywiadau yn amodau'r farchnad, costau mewnbynnau ac ymyriadau gan y Llywodraeth.<br>Yn eich barn chi, beth fyddai'r cwestiynau y dylid eu hystyried wrth asesu cyfleoedd a bygythiadau i gefnogi datblygiad ffermydd?<br>A fyddai'n ddefnyddiol i bob fferm edrych ar gyfleoedd gi ychwanegu gwerth? (cynnyrch amaethyddol a chynnyrch wedi'i brosesu) | |
| 18 | Ble fyddech chi'n mynd i chwilio am wybodaeth neu newyddion ynglŷn â chyfleoedd newydd a/neu fygythiadau i fusnes eich fferm? | |
| 19 | Pa mor aml y dylai'r cynllun SFS adolygu eich nodau? | |
| 20 | A oes unrhyw ffynonellau eraill o wybodaeth y gallech eu defnyddio i gael gwybod am dueddiadau a newidiadau? | |

Strategaeth Datblygu Ffermydd

| | | |
|---|---|---|
| 21 | Sut ydych chi'n teimlo ynglŷn â datblygu strategaeth datblygu ffermydd ar gyfer eich busnes yn seiliedig ar y dull dadansoddiad SWOT? | |
| 22 | Gan gymryd eich bod yn bwriadu addasu a/neu wneud newidiadau i'ch busnes fferm, i ba raddau y byddech yn dilyn strategaeth busnes fferm? | |
| 23 | Os ydych chi wedi addasu neu newid eich busnes fferm yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, beth wnaethoch chi ei roi ar waith i gefnogi'r newid hwnnw? | |
| 24 | A allai dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) (targedau) fod yn rhan effeithiol o strategaeth ddatblygu? | |
| 25 | Pa fath o gymorth fyddech chi'n ei ddisgwyl drwy'r SFS ar ôl datblygu strategaeth busnes fferm? (Mae'r cynigion yn cynnwys cyllid tuag at isadeiledd, offer, sgiliau, gwybodaeth ac arweiniad) | |
| 26 | Pa mor rheolaidd fyddai angen adolygu'r strategaeth? | (a) bob blwyddyn |
| | | (b) bob dwy flynedd |
| | | (c) bob tair blynedd |
| | | (d) bob pum mlynedd, neu |
| | | (e) gyfnod hwy |
| 27 | A ddylai strategaeth datblygu ffermydd fod ar waith ar gyfer unrhyw fusnes sy'n derbyn cymorth datblygu fferm drwy'r cynllun SFS? A oes ystyriaethau eraill o ran darparu cymorth i fusnesau fferm? | |

Asesu Parhaus

| | | |
|---|---|---|
| 28 | A ddylai'r cynllun Datblygu Fferm fod yn orfodol i holl aelodau'r cynllun SFS neu a yw'n gyfyngedig i'r rhai sy'n bwriadu newid? | |
| 29 | I ba raddau y dylai ymrwymiad ar gyfer asesiad parhaus a meincnodi eich busnes ffermio fod yn rhan annatod o'r cynllun SFS newydd? | |
| 30 | Pa mor gyfforddus fyddech chi wrth rannu eich data fferm mewn hwb canolog? | |
| 31 | A oes unrhyw ffyrdd eraill o fonitro cynnydd mewn perthynas â datblygu ffermydd? | |

Cwestiwn Olaf

| | | |
|---|---|---|
| 32 | Yn olaf, a oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu a fyddai'n helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun SFS? | |



CYDLUNIO AR GYFER CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

# Atodiad 3.4
## Iechyd a lles anifeiliaid a rheoli da byw

## Cwestiynau'r sesiynau un i un
## Holiadur

Cynllun iechyd ar gyfer y fuches/diadell.

1. Pa is-sector o dda byw ydych chi'n ei gadw ar eich daliad?
    - a. Llaeth
        - i. G odro
            - 1. Gwartheg godro cyfnewid
            - 2. Pob stoc ifanc
            - 3. Dim stoc ifanc
    - b. Defaid
        - i. Masnachol
        - ii. Pedigri
    - c. Moch
        - i. Masnachol
        - ii. Pedigri
    - ch. Dofednod
        - i. Brwyliaid
        - ii. Dofednod dodwy
        - iii. Magu
    - d. Arall

2. Pryd oedd y tro diwethaf i chi ddiweddaru eich cynllun iechyd ar gyfer y fuches/diadell?
    - a. O fewn y flwyddyn ddiwethaf
    - b. Yn fwy na blwyddyn yn ôl
    - c. Nid oes gennym gynllun iechyd

3. Pwy sy'n cwblhau'r cynllun?
    - a. Milfeddyg
    - b. Ffermwr
    - c. Y ddau
    - ch. Arall

4. Pam mae gennych chi gynllun iechyd?
    - a. Gofynion deddfwriaeth / sicrwydd fferm
    - b. Budd economaidd
    - c. Budd o ran lles
    - ch. Arfer Dda
    - d. Arall

5. Beth ydych chi'n ystyried yw'r prif rwystrau rhag cael cynllun iechyd?
    - a. Cost
        - i. Milfeddyg
        - ii. Cynlluniau e.e. FAWL / Red tractor
    - b. Amser
    - c. Gwybodaeth
    - ch. Dim budd canfyddedig

6. Beth yw rhannau mwyaf defnyddiol y cynllun iechyd?
    - a. Llunio protocolau e.e. triniaeth llyngyr, llyngyr yr iau ayb.
    - b. Casglu data
        - i. Gwirfoddol
        - ii. Gofynnol
    - c. Canllawiau deddfwriaethol
    - d. Trafodaeth rhwng y Ffermwr a'r Milfeddyg wrth lunio'r cynllun
    - e. Dadansoddiad o ddefnydd o driniaethau gwrth-ficrobaidd
    - f. Arall

7. Beth yw rhannau lleiaf defnyddiol y cynllun?
    - a. Llunio protocolau e.e. triniaeth llyngyr, llyngyr yr iau ayb.
    - b. Casglu data
        - i. Gwirfoddol
        - ii. Gofynnol
    - c. Canllawiau deddfwriaethol
    - d. Trafodaeth rhwng y Ffermwr a'r Milfeddyg wrth lunio'r cynllun
    - e. Dadansoddiad o ddefnydd o driniaethau gwrth-ficrobaidd
    - f. Arall

8. Ydych chi'n cyfeirio at y cynllun ar unrhyw adeg arall o'r flwyddyn?
    - a. Ydw - unwaith neu ddwy
    - b. Ydw - yn aml
    - c. Na, byth

9. A yw adolygiad o'r cynllun iechyd yn newid unrhyw arferion/protocolau ffermio bob blwyddyn?
    - a. Ydy - bob amser
    - b. Ydy - weithiau
    - c. Anaml
    - ch. Byth



CYDLUNIO AR GYFER CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

10. Beth ydych chi'n ystyried yw'r prif rwystrau rhag llunio ac adolygu'r cynllun?
    - a. Cost
    - b. Argaeledd milfeddyg
    - c. Amser
    - ch. Anhyblygrwydd fformat y cynllun iechyd
    - d. Casglu data
    - dd. Dibynadwyedd data
    - e. Pob un o'r uchod

11. Beth yw rôl yr unigolyn sy'n cwblhau'r cynllun iechyd?
    - a. 'Ffermwr gweithredol' a'r prif berson sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau
    - b. Perchennog y busnes ond yn llai gweithredol ar y fferm
    - c. Rheolwr fferm
    - ch. Gweithiwr fferm
    - d. Cyfranddaliwr anweithredol
    - dd. Arall

12. A fyddai unrhyw ofalwyr stoc/gweithwyr yn derbyn gwybodaeth yn seiliedig ar y cynllun?
    - a. Cymryd rhan yn y broses o lunio/adolygu'r cynllun
    - b. Gweld copi o'r cynllun gorffenedig
    - c. Trafodaeth ynghylch cynnwys y cynllun
    - ch. Dim gwybodaeth am gynnwys y cynllun

13. Pa mor aml fydd milfeddyg yn ymweld â'r fferm ar gyfer gwaith rheolaidd nad yw'n argyfwng?
    - a. Pob wythnos
    - b. Ddwywaith y mis
    - c. Unwaith y mis
    - ch. 4 gwaith y flwyddyn
    - d. Ddwywaith y flwyddyn
    - dd. Unwaith y flwyddyn
    - e. Byth

14. Pa newidiadau yr hoffech eu gweld er mwyn gwneud y cynllun iechyd yn fwy defnyddiol i'ch menter fferm?
    - a. Dim byd
    - b. Templed
        - i. Papur
        - ii. Ar-lein
        - iii. Ap ffôn
    - c. Cynnwys
    - ch. Amlder yr adolygiad
    - d. Cynllun papur i'w ategu gan ymweliadau milfeddyg rheolaidd ar y fferm.
    - dd. Gweithredu ar dargedau
    - e. Gweithredu ar ganlyniadau

15. Fel rheol, gosodir rhwng 2 a 5 ‘targed’ neu flaenoriaeth fferm unigol wrth lunio cynllun iechyd. Beth yw’r prif rwystrau rhag cyflawni’r targedau hyn?
    a. Yn anymarferol ac yn anghyraeddadwy
    b. Cyfyngiadau ariannol
    c. Cyfyngiadau isadeiledd
    ch. Cyfleusterau trin
    d. Cyfyngiadau amser/llafur
    dd. Hinsawdd anrhagweladwy
    e. Ffactorau eraill na ellir eu rheoli

16. Pa unigolion yn y diwydiant sydd yn y sefyllfa orau i lunio’r cynlluniau iechyd fferm?
    a. Milfeddygon
    b. Archwilwyr sicrwydd fferm allanol
    c. Swyddog maes’ penodol a gyflogir gan Lywodraeth Cymru

17. Pa mor aml y dylai unigolyn allanol adolygu targedau iechyd fferm er mwyn caniatáu ar gyfer addasiadau a diwygiadau realistig?
    a. Yn flynyddol
    b. Ddwywaith y flwyddyn
    c. Bob chwarter
    ch. Byth

18. Pa unigolion yn y diwydiant sydd yn y sefyllfa orau i adolygu’r cynlluniau iechyd fferm?
    a. Milfeddygon
    b. Archwilwyr sicrwydd fferm allanol
    c. Swyddog maes’ penodol a gyflogir gan Lywodraeth Cymru

19. Beth allai’r llywodraeth ei wneud i wneud cynllunio iechyd yn haws ac yn fwy defnyddiol?
    a. Cyllid
    b. Ffurfio templed
    c. Apiau ffôn ar gyfer cofnodi/adolygu data
    d. Grwpiau trosglwyddo gwybodaeth
    e. Cyrsiau hyfforddi
    f. Grwpiau meincnodi i ffermwyr
    g. Cymhelliant ariannol am gyrraedd targedau a gytunwyd ymlaen llaw





## DEFNYDDIO GWRTHFIOTIGAU

Mae pryder cynyddol ynghylch ymwrthedd gwrthficrobaidd, sef pan fo bacteria yn gallu gwrthsefyll y gwrthfiotigau a ddefnyddir i drin heintiau. Mae ein Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd ar gyfer Cymru yn nodi sut rydyn ni’n mynd i ddelio â risgiau datblygu a lledaenu ymwrthedd gwrthficrobaidd. Bydd defnyddio meddyginiaethau yn gyfrifol, trwy amddiffyn anifeiliaid rhag afiechydon fel bod angen llai o driniaethau gwrthfiotig arnynt, yn helpu i atal ymwrthedd gwrthfiotig. Ar lefel y DU mae’r Defnydd Cyfrifol o Feddyginiaethau mewn Amaethyddiaeth (RUMA) wedi nodi targedau sector-benodol ar gyfer lleihau, mireinio neu amnewid gwrthfiotigau mewn ffermio.

20. Ydych chi’n monitro defnydd o driniaethau gwrthficrobaidd (AMU) ar hyn o bryd?
    a. Ydw - mae’n cael ei goladu a’i ddogfennu’n flynyddol
    b. Ydw - ond nid yw’n cael ei ddogfennu
    c. Nac ydw

21. Ydych chi’n ymwybodol o’r targedau a osodwyd gan y diwydiant ar gyfer pob sector?
    a. Ydw
    b. Nac ydw

22. Os felly, beth yw eich AMU presennol?
    a. Yn is na thargedau’r diwydiant
    b. Yn bodloni targedau’r diwydiant
    c. Uwchlaw targedau’r diwydiant

23. Ydych chi’n meddwl bod brechu yn effeithio ar faint o wrthfiotigau sy’n cael eu defnyddio?
    a. Ydw, effaith sylweddol
    b. Ydw, rhywfaint o effaith
    c. Nac ydw

24. Faint o afiechydon ydych chi’n brechu yn eu herbyn ar eich fferm ar hyn o bryd?
    a. 0
    b. 1
    c. 2
    ch. 3
    d. Mwy

25. Pa afiechydon ydych chi’n brechu yn eu herbyn ar hyn o bryd?

26. Beth yw’r prif resymau dros beidio â brechu neu frechu mwy rhag clefydau da byw?
    a. Cost
    b. Gofyniad amser/llafur
    c. Cyfleusterau trin
    ch. Diffyg gwybodaeth
    d. Diffyg gwybodaeth am arbedion posib

27. Yn eich barn chi, pa effaith mae siediau da byw yn ei gael ar iechyd anifeiliaid?
    a. Effaith sylweddol
    b. Rhywfaint o effaith
    c. Dim effaith

28. Yn eich barn chi, faint mae eich siediau da byw presennol yn eich cyfyngu o ran sicrhau diadell/buches iachach?
    a. Ddim yn ffactor sy'n cyfyngu
    b. Rhai cyfyngiadau
    c. Y prif ffactor cyfyngu

29. Beth yw'r rhwystrau sy'n eich atal rhag gwella siediau da byw ar y fferm?
    a. Cost
    b. Amser
    c. Gwybodaeth
    ch. Awydd

30. Ydych chi'n meddwl y dylai pawb sy'n cadw anifeiliaid gael trwydded sgiliau hwsmonaeth sylfaenol cyn cael caniatâd i ddod yn geidwaid da byw?
    a. Ydw
    b. Nac ydw

BIODDIOGELWCH

Nod mesurau bioddiogelwch yw atal cyflwyno unrhyw afiechydon neu heintiau newydd ar y fferm. Dylai hyn fod yn sylfaen i unrhyw Gynllun Iechyd Fferm. Mae buddion protocolau bioddiogelwch da nid yn unig yn arwain at anifeiliaid iachach a mwy proffidiol, ond hefyd at ddefnyddio llai o driniaethau gwrthficrobaidd a llygru'r amgylchedd yn anfwriadol.

31. Ar raddfa 1-5, pa mor dda fyddech chi'n graddio bioddiogelwch ar eich fferm?

32. A fyddai pob un sy'n gweithio gyda da byw ar y fferm yn cadw dillad i'w defnyddio ar eich daliad yn unig, neu'n cael eu diheintio'n llawn wrth gyrraedd a gadael y fferm?
    a. Byddai bob amser
    b. Byddai fel arfer
    c. Na, dim bob amser
    d. Byth

33. Pa mor gaeedig/diogel fyddech chi'n dweud yw ffin y fferm?
    a. Diogel iawn
    b. Cymharol ddiogel
    c. Gwael





34. Pa ganran o ffin y fferm sydd wedi'i ffensio i atal unrhyw gyswllt trwyn i drwyn rhwng anifeiliaid (e.e. mwy na 3 metr rhwng anifeiliaid)?
    a. 100%
    b. 50-90%
    c. 30-50%
    d. O dan 30%

35. Beth fyddai'r prif rwystrau sy'n eich atal rhag adeiladu ffens 3m o led ar draws y tir?
    a. Cost
    b. Amser
    c. Tirwedd ffisegol
    ch. Rhannu tir pori
    d. Dim budd canfyddedig

36. A yw adeiladau eich fferm ar hyn o bryd yn atal bywyd gwyllt, fel moch daear, rhag dod i gysylltiad â stoc a mannau bwydo?
    a.Ydyn, pob adeilad a man storio bwyd
    b. Rhai adeiladau a mannau storio bwyd
    c. Nac ydw

37. A fyddai'n bosibl atal bywyd gwyllt ee moch daear neu lwynogod rhag dod i gysylltiad â'ch stoc pan fyddant yn cael eu cadw dan do?
    a. Ydw
    b. Nac ydw

38. Beth yw'r prif rwystrau sy'n eich atal rhag gwneud hyn?
    a. Cost
    b. Trefn y fferm
    c. Amser
    ch. Diben canfyddedig y gweithgaredd

39. A fyddech chi'n cynnal profion yn rheolaidd neu'n gofyn am hanes clefydau stoc cyn eu prynu (os nad ydych yn eu prynu o fuches/diadell gyda statws iechyd ardystiedig)?
    a. Ydw
    b. Nac ydw
    c. Weithiau

40. A yw eich fferm yn rhan o gynllun iechyd cenedlaethol cydnabyddedig?
    a. Ydw
    b. Nac ydw

41. Os felly, pa gynlluniau iechyd? (ee Maedi visna / Johne / cynllun iechyd gwartheg Premiwm)

42. Beth yw eich prif resymau dros fod yn rhan o'r cynlluniau hyn?
    a. Anifeiliaid iachach
    b. Mynediad at werthiannau a sioeau cymdeithasau
    c. Mwy o werth economaidd ar gyfer gwerthu
    ch. Ffordd gost effeithiol o reoli clefydau
    d. Pob un o'r uchod

43. Os nad yw'n rhan o gynllun iechyd, beth yw'r prif ffactorau sy'n eich rhwystro chi?
    a. Dim buddion economaidd amlwg
    b. Dim buddion iechyd amlwg
    c. Anodd dod o hyd i anifeiliaid o ddaliadau gyda statws iechyd uchel
    ch. Cost
    d. Amser
    dd. Gwybodaeth
    e. Cyfleusterau trin

CADW COFNODION

Mae cadw cofnodion yn adnodd hanfodol sy'n rhoi syniad i ni o lefelau cynhyrchiant, cyfraddau marwolaeth a defnydd adnoddau presennol ar y fferm. Mae cadw cofnodion yn gywir yn eich galluogi i ddadansoddi'r busnes fferm yn barhaus, gan arwain at adolygu a gwella arferion presennol. Mae casglu data yn eich galluogi i lunio dangosyddion perfformiad allweddol y gellir eu defnyddio i gymharu amrywiaethau tymhorol a blynyddol ar y fferm, yn ogystal â chymharu gyda busnesau eraill tebyg. Gellir hefyd ei ddefnyddio i ddangos sut mae'r diwydiant yn cyflawni iechyd a lles safonau uchel.

44. Llaeth: - ydych chi'n recordio llaeth?
    a. Ydw
    b. Nac ydw

45. Os nac ydych, pam?
    a. Cost
    b. Amser
    c. Dim budd ychwanegol go iawn

46. A oes gennych chi unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol hawdd eu cyrraedd ar gyfer ffrwythlondeb/oedran wrth loia/cloffni a chynhyrchiant ar gyfer y fuches gyfan?
    a. Ydw
    b. Nac ydw

47. A oes gennych chi unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol hawdd eu cyrraedd ar gyfer cyfraddau marwolaeth lloi/cyfraddau twf/cyfraddau clefydau?
    a. Oes, pob un
    b. Oes, rhai
    c. Nac ydw





48. A oes gennych chi ddangosyddion perfformiad hawdd eu cyrraedd ar gyfer sganio/ŵyna/cyfraddau twf ŵyn/marwolaethau a gwerthiannau?
    a. Oes, pob un
    b. Oes, rhai
    c. Nac ydw

49. Ydych chi'n ymwneud â grŵp meincnodi/grŵp trafod?
    a. Ydw
    b. Nac ydw

50. A hoffech chi wneud mwy o feincnodi/mesur dangosyddion perfformiad allweddol a chofnodi?
    a. Ydw
    b. Nac ydw

51. Beth yw'r prif agweddau sy'n atal cofnodi data pellach ar eich fferm?
    a. Cost
    b. Amser/llafur
    c. Sgiliau cyfrifiadurol
    d. Diddordeb
    e. Dim budd canfyddedig

52. Ydych chi'n defnyddio unrhyw raglenni cyfrifiadurol ar hyn o bryd i recordio a chynhyrchu dangosyddion perfformiad allweddol?
    a. Ydw
    b. Nac ydw

53. Os ydych, pa raglen i chi ei defnyddio?

54. Os nac ydych, pa rwystrau sy'n eich atal rhag defnyddio un?
    a. Cost
    b. Amser/llafur
    c. Sgiliau cyfrifiadurol
    ch. Methu gweld y budd.

55. Pa mor werthfawr yw bridio dethol yn eich barn chi er mwyn arwain effeithlonrwydd ar y fferm?
    a. Pwysig iawn
    b. Pwysig
    c. Yn llai pwysig na ffactorau eraill
    d. Ddim yn bwysig

56. Pa rai o'r mathau canlynol o fridio dethol/gwella bridiau ydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd?
    a. Trosglwyddo embryonau
    b. AI
    c. Profi genomig
        i. Hyrddod/teirw
        ii. Anifeiliaid benyw
    ch. Cofnodi EBV
        i. hyrddod/teirw
        ii. anifeiliaid cyfnewid
    d. Defnyddio hyrddod/teirw pedigri/cofrestredig
    dd. Eich data eich hunain ar y fferm
    e. Eich gwybodaeth eich hun am stoc bridio
    f. Dim un o'r uchod

57. Yn eich barn chi, pa rôl y mae geneteg yn ei chwarae yn effeithlonrwydd a chynhyrchu stoc fferm?
    a. Rôl sylweddol
    b. Rhywfaint o effaith
    c. Rôl fach

58. Yn eich barn chi, pa rôl y mae geneteg yn ei chwarae yn iechyd y fuches / diadell?
    a. Rôl sylweddol
    b. Rhywfaint o effaith
    c. Rôl fach

**Ar raddfa 1-5, gydag un yn anghytuno'n gryf a 5 yn cytuno'n gryf, atebwch y datganiadau canlynol: -**

- Byddai modd cysylltu cyllid gan y Llywodraeth gyda llunio a dilyn cynllun iechyd ar y fferm.
- Byddai modd cysylltu cyllid gan y Llywodraeth gydag adrodd a chyflawni dangosyddion perfformiad allweddol unigol yn ymwneud ag iechyd ar y fferm.
- Byddai modd cysylltu cyllid gan y Llywodraeth gyda chyflawni targedau cydnabyddedig y diwydiant ar gyfer ymwrthedd gwrthficrobaidd.
- Byddai modd cysylltu cyllid y Llywodraeth gydag adeiladu a chynnal ffens 3 metr o amgylch y fferm
- Dylai cyllid y llywodraeth fod yn gysylltiedig â gweithio tuag at waredu afiechydon a chynnal statws swyddogol rhydd rhag clefydau.



CYDLUNIO AR GYFER CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

59. Ym mha dri maes a drafodir yn yr holiadur y byddech chi'n hoffi gweld cefnogaeth gan y Llywodraeth?
    a. 1
    b. 2
    c. 3

60. A oes unrhyw feysydd, mewn perthynas ag Iechyd a Lles Anifeiliaid, nad ydynt yn cael eu cynnwys yr holiadur hwn y credwch y gellid eu cysylltu â chymorth pellach gan y Llywodraeth?

61. Yn olaf, a oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu a fyddai'n helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun SFS?